***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 990

# Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Trosglwyddo Swyddogaethau, Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) 2012

***Darpariaethau Trosiannol***

*Datganiad o gyfrifon olaf Bwrdd yr Iaith Gymraeg*

**4.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio datganiad o gyfrifon mewn perthynas â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2011 hyd 31 Mawrth 2012.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru anfon copi o'r datganiad o gyfrifon at Archwilydd Cyffredinol Cymru heb fod yn hwyrach na 31 Awst 2012.

(3) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiad o gyfrifon a gosod copïau o'r datganiad a'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.